



POLISI FFIOEDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mis Ebrill 2022

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg: Mis Ebrill 2022

Cymeradwywyd gan: Bwrdd

Haen: 1

Awdur: Cyfarwyddwr Cyllid

Dyddiad Cymeradwyo: 19 Gorffennaf 2022

Dyddiad adolygu: Mis Ebrill 2023

Cyhoeddwyd ar:
Gwefan
Mewnrwyd
Porth Dysgwr

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais.

Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg

DATGANIAD POLISI

Cyflwyno Polisi Ffioedd ar gyfer y coleg.

DIBEN A CHWMPAS

Gall y copi hwn fod wedi dyddio os caiff ei argraffu

Mae'r Polisi Ffioedd yn darparu fframwaith ar gyfer pennu ffioedd dysgu'r Coleg, ac yn manylu ar yr amodau ar gyfer diystyru neu leihau ffioedd dysgu. Mae'r Polisi yn cwmpasu'n fras yr holl incwm ffioedd dysgu a godir gan y Coleg gan gynnwys AB, AU, AALL, Rhyngwladol a Masnachol.

MANYLION Y POLISI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Coleg Gwent yn codi ffioedd am ei raglenni astudio yn flynyddol ac mae'r ffioedd hyn yn gallu newid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Ffioedd Dysgu, pryd bynnag maen nhw'n berthnasol, i'w gweld yn <https://www.coleggwent.ac.uk/cy> yn y taflenni cwrs.
- 1.2. Mae'r holl ffioedd, oni nodir yn wahanol, am 1 flwyddyn yn unig ac yn daladwy fel rhan o'r broses ymgeisio/ymrestru.
- 1.3 Nid oes unrhyw ffioedd dysgu na ffioedd cofrestru yn daladwy ar gyfer dysgwyr *cartref* sy'n dilyn rhaglenni addysg bellach llawn amser yn Coleg Gwent sy'n 12 awr a throsodd yr wythnos. Ni fydd unrhyw ffi weinyddol (£10 fel arfer) yn daladwy ar gyfer 2022/23, er efallai y codir ffioedd sy'n gysylltiedig â chysiau am becynnau, deunyddiau, nwyddau traul, dillad arbenigol ac ati. Efallai nad yw pob ffi yn gysylltiedig â chwrs yn daladwy yn uniongyrchol i'r coleg bob tro.
- 1.4 Nid oes unrhyw ffioedd **dysgu** yn daladwy o ran cysiau rhan amser a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr cartref sydd wedi gorffen eu haddysg orfodol ac sydd dros 16 oed ond dan 19 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn gychwynnol o astudio. Fodd bynnag, mae ffioedd cofrestru a ffioedd arholiadau yn daladwy ar gyfer cysiau rhan amser waeth beth fo'u hoedran. Mae'n bosibl hefyd y bydd ffioedd sy'n gysylltiedig â chwrs am ddeunyddiau, dillad arbenigol a gwiriadau DBS ac ati.
- Mae dysgwyr dros 19 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn gychwynnol o astudio yn atebol am BOB ffi ar gyfer cysiau rhan amser gan gynnwys dysgu, cofrestru, arholiadau ac unrhyw ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â chwrs.
- 1.5 Ar gyfer cysiau rhan amser **nas ariennir**, pennir y ffi sy'n daladwy yn ôl oedran y dysgwr ac a yw'r cwrs wedi'i achredu ai peidio. Ni fydd yn rhaid i ddysgwr 16-18 oed dalu ffioedd dysgu am unrhyw gwrs achrededig ond mae'n dal i fod yn gymwys am unrhyw ffioedd cwrs eraill e.e. ffioedd cofrestru neu arholiadau.
- Mae'r holl ffioedd yn daladwy am unrhyw gwrs **nad** yw wedi'i achredu beth bynnag fo oedran y dysgwr.
- 1.6 Codir ffioedd dysgu ar gyfer pob dysgwr Addysg Uwch HNC/Gradd Sylfaen/BA a BSC Atodol/TAR ar gysiau rhyddfrait yn unol â threfniadau cytundebol y Coleg gyda'r Brifysgol bartner. Mae amserlen Ffioedd Dysgu Addysg Uwch y Coleg ar gael yn <https://www.coleggwent.ac.uk/cy/learning/higher-education/fees-and-financial-support>
- 1.7 At ddibenion y Polisi hwn, mae dysgwr ond yn gymwys i gael ffioedd cartref os yw'n bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru o fod yn ddinesydd y DU neu Weriniaeth Iwerddon (ROI), neu os nad yw'n ddinesydd y DU/ROI (yna yn amodol ar feini prawf penodol) gall fod yn gymwys os yw'r dysgwr:
- Yn geisiwr lloches
 - Yn ffoadur
 - Yn meddu ar fisa cysylltiedig â gwaith
 - Yn meddu ar statws sefydlog
 - Yn meddu ar statws cyn-sefydlog

Mae'r canllawiau a'r cymhwysedd yn gymhleth ac yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru. Dylai unrhyw ddarpar ddysgwr nad yw'n ddinesydd y DU/ROI gysylltu â Swyddfa Ryngwladol y coleg i ofyn am arweiniad ar eu cymhwysedd a'u ffioedd.

- 1.8 Oni bai bod Nawdd Cyflogwr neu gyllid Cyllid Myfyrwyr Cymru (myfyrwyr AU) yn ei le, dysgwyr fydd yn bennaf gyfrifol am dalu eu ffioedd, p'un a ydynt wedi'u hanfonebu ai peidio.
- 1.9 Ni chaniateir i unrhyw ddysgwr sydd â dyled heb ei thalu gofrestru ar unrhyw un o safleoedd y Coleg na symud ymlaen o fewn rhaglen astudio nes bod yr holl ffioedd sydd heb eu talu wedi'u talu.
- 1.10 Ni chodir unrhyw ffioedd ar ddysgwr AB llawn amser o Goleg Gwent sy'n mynychu cwrs TGAU Mathemateg neu Saesneg. Ar gyfer unrhyw gwrs rhan amser addysg bellach prif ffrwd ychwanegol arall, p'un a yw'r cwrs ychwanegol yn berthnasol i'r cwrs llawn amser ai peidio, codir ffioedd (oni bai bod y cwrs rhan amser yn rhan o'r Rhaglen Maes Dysgu llawn amser - LAP). Ni chodir ffioedd dysgu ar rai dan 19 ond codir unrhyw ffioedd ychwanegol arnynt.
- 1.11 Ceir gwybodaeth ynghylch costau ychwanegol ar y daflen wybodaeth berthnasol ynghylch y cwrs yn <https://www.coleggwent.ac.uk/cy>
- 1.12 Mae'n bosibl y bydd gan ddysgwyr, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'r cwrs, hawl Ffi Wedi'i Diystyru. Mae rhagor o fanylion am gymhwysedd ar gyfer Diystyru Ffioedd ar gael ar y daflen wybodaeth berthnasol ynghylch y cwrs yn <https://www.coleggwent.ac.uk/cy>. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod Diystyru Ffioedd yn berthnasol i Ffioedd Dysgu yn unig. Mae'r holl ffioedd eraill yn daladwy o hyd.
- 1.13 **NID** yw diystyru ffioedd yn berthnasol i gyrsiau masnachol dynodedig neu gyrsiau ffioedd uwch lle mae'r dysgwr dros 19 oed.
- 1.14 Mae'n bosibl y bydd gan y dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael Ffi Wedi'i Diystyru hawl o hyd i gael mynediad at ddulliau eraill o Gymorth Ariannol, y mae eu manylion ar gael yn <https://www.coleggwent.ac.uk/cy>
- 1.15 Nod y coleg yw cynnal yr holl gyrsiau rhan amser fel y'u cynlluniwyd a'u hysbysebwyd trwy ein llwyfannau cyfryngau. Lle mae risg na fydd unrhyw gwrs yn cael ei gynnal o ganlyniad i ddiffyg galw neu amgylchiadau esgusodol eraill, bydd y coleg yn rhoi pythefnos o rybudd am hyn cyn dyddiad cychwyn y cwrs a hysbysebir.

2. FFIOEDD ARHOLIADAU

- 2.1 Mae Ffioedd Arholiadau yn seiliedig ar ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu a phryd bynnag mae'n berthnasol, cânt eu cynnwys o fewn y ffi a godir ar y dysgwr wrth gofrestru ar y cwrs.
- 2.2 Mae ffioedd arholiad cyntaf pob dysgwr llawn amser yn cael eu talu gan y Coleg.
- 2.3 Rhaid i bob dysgwr llawn amser sy'n dymuno ailsefyll arholiad dalu'r ffi arholiadau perthnasol (oni bai bod amgylchiadau esgusodol wedi'u cadarnhau gan Bennaeth yr Ysgol). Gellir ailgodi ffi'r arholiadau ar ddysgwyr hefyd os byddant yn methu â mynychu heb unrhyw reswm dilys.
- 2.4 Rhaid i bob dysgwr rhan amser (neu eu cyflogwr os yw'n cael ei nodd) dalu'r ffi arholiad priodol wrth neilltuo lle ar y cwrs.

- 2.5 Bydd angen i ymgeiswyr allanol sy'n sefyll arholiad yn Coleg Gwent gael caniatâd Pennaeth y Ganolfan a bydd yn ofynnol iddynt dalu ffioedd ychwanegol i dalu costau. Rhoddir gwybod am ffi ar ôl gwneud cais.
- 2.6 Ar eu cost eu hunain, gall pob dysgwr UG/U dalu i ailsefyll yr arholiadau os ydynt yn dymuno gwella eu gradd. Rhaid i bob cais i ailsefyll arholiad gael ei gymeradwyo a'i drefnu drwy Bennaeth Ysgol y dysgwr.
- 2.7 Caniateir un cyfle i ailsefyll am ddim fesul arholiad/modiwl i ddysgwyr Prentisiaeth (yn unol â threfniadau ariannu Prentisiaeth).

3. FFIOEDD COFRESTRU

- 3.1 Mae Ffioedd Cofrestru yn seiliedig ar ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu a, pan mae'n berthnasol, maent wedi'u cynnwys o fewn y ffi a godir ar y dysgwr wrth gofrestru ar y cwrs.
- 3.2 Telir Ffioedd Cofrestru ar gyfer pob dysgwr llawn amser gan y Coleg.
- 3.3 Rhaid i bob dysgwr rhan amser (neu eu cyflogwr os yw'n cael ei noddi) dalu'r ffi Gofrestru briodol wrth neilltuo lle ar y cwrs.

4. TALIADAU

- 4.1 Mae Coleg Gwent yn casglu ffioedd dysgu yn unol â'i amserlen ffioedd blynyddol a pholisiau cysylltiedig. Mae ffioedd dysgu yn ddyledus ar adeg archebu/ymrestru ac mae'r Coleg yn derbyn yr ystod o ddulliau talu a amlinellir isod:

- Ar-lein gan ddefnyddio cerdyn Debyd/Credyd
- Dros y ffôn i adran Gyllid y Coleg drwy ffonio 01495 333777, opsiwn 1,5,1
- Yn bersonol gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd, siec ar unrhyw un o safleoedd y coleg
- Trwy'r post - Siec (ysgrifennwch enw'r dysgwr, ID a'r cwrs ar gefn y siec) i Cyllid Canolog, Coleg Gwent, Y Rhadyr, Brynbuga, NP5 1XJ
- Trosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion: Cod Didoli: 309249 Rhif Cyfrif: 00123505: - gan ddyfynnu ID y Dysgwr fel cyfeirnod
- Mae rhandaliadau Debyd Uniongyrchol ar gael. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y tîm Cyllid Canolog. [Bydd ffi o £15 yn awtomatig am unrhyw Ddebyd Uniongyrchol sy'n methu.](#)

[Gellir cysylltu â Chyllid y Coleg gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: salesledger@coleggwent.ac.uk](mailto:salesledger@coleggwent.ac.uk) neu drwy ffonio'r rhif a nodir uchod.

- 4.2 Nid yw'r Coleg yn derbyn cardiau American Express.

- 4.3 Pan mae'r cyflogwr yn talu ffioedd, rhaid i ddysgwyr sicrhau bod y Coleg yn derbyn **Ffurflen Cyflogwr yn Talu Ffioedd** neu bydd y dysgwr yn cael anfoneb a bydd yn atebol am y cyfanswm sy'n ddyledus. Mae llythyr ar bapur â phennawd y Cwmni neu e-bost gan y cyflogwr hefyd yn awdurdodiad derbyniol.

Dylai dysgwyr sy'n cofrestru fel rhan o Brentisiaeth (ac eithrio lle mai Coleg Gwent yw'r darparwr) ddarparu prawf bod eu Darparwr Hyfforddiant wedi cymeradwyo eu cofrestriad ac yn derbyn cyfrifoldeb am dalu eu ffioedd.

- 4.4 Rhaid i bob dysgwr AU sy'n cael cymorth ariannol ddarparu copi o'i lythyr hysbysiad ariannol dan y pennawd 'Cyngor Talu gan y Brifysgol neu'r Coleg' ar adeg ymrestru yn Coleg Gwent, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Mae'r cyngor hwn yn nodi swm y ffioedd dysgu sy'n daladwy gan Gyllid Myfyrwyr. Mae hefyd yn cynnwys y Rhif Cymorth i Fyfyrwyr sydd ei angen i ryddhau'r taliadau ffioedd dysgu a grantiau myfyrwyr. Mae angen talu unrhyw ffioedd sy'n weddill yn llawn neu drwy randaliadau.
- 4.5 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod neu beidio â chaniatáu unrhyw drafodion ariannol lle na ellir adnabod neu gadarnhau tarddiad y taliad.
- 4.6 Ar gyfer cyrsiau Addysg Bellach Rhan Amser, nid yw archeb yn cael ei throsi'n Ymrestrriad nes bod taliad wedi'i wneud neu gynllun talu wedi'i gadarnhau gyda'r Adran Gyllid.
- 4.7 Os bydd taliad yn ddyledus am 7 niwrnod yn olynol neu fwy o'r dyddiad archebu, mae'r coleg yn cadw'r hawl i gau'r archeb yn awtomatig.
- 4.8 Lle gwneir archebion o fewn 3 diwrnod o ddechrau'r cwrs, ar y diwrnod y disgwylir i'r cwrs ddechrau neu ar ôl i'r cwrs ddechrau ac na wneir taliad ar yr adeg archebu, mae'r coleg yn cadw'r hawl i gau'r archeb yn awtomatig a gellir gwrthod mynediad i'r dysgwr i'r dosbarth.

5. PEIDIO Â THALU FFIOEDD DYSGU

- 5.1 Yn unol â 4.7, ar gyfer archebion cwrs newydd, os oes taliad yn ddyledus am 7 niwrnod yn olynol neu fwy o'r dyddiad archebu neu os na chytunwyd ar gynllun talu addas gyda'r tîm Cyllid, mae'r coleg yn gwrthod yr hawl i gau'r cais yn awtomatig.
- 5.2 Yn unol ag adran 1.9, gall dysgwyr sy'n methu â thalu neu sy'n methu taliadau y cytunwyd arnynt gael eu heithrio o'r Coleg os na wneir trefniadau boddhaol gyda'r Adran Gyllid i ddatrys materion diffyg talu. Mae trefniadau boddhaol fel a ganlyn:
- Wedi talu'n llawn neu
 - Wedi gwneud trefniadau Debyd Uniongyrchol y cytunwyd arnynt a chynnal ad-daliad boddhaol heb ddiffyg neu
 - Wedi darparu tystiolaeth bod Noddwr yn talu'r ffi drwy Ffurflen Cyflogwr yn Talu Ffioedd wedi'i llofnodi (gweler Adran 4.3). Os bydd Noddwr yn methu â thalu o fewn 60 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb, bydd y rhwymedigaeth yn dychwelyd i'r dysgwr a fydd yn cael anfoneb am y ddyled sy'n weddill
 - Cytuno ar gynllun ad-dalu gyda'r Adran Gyllid
 - Darparu copi o gadarnhad ysgrifenedig o gais i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) am fenthyciad ffioedd dysgu i dalu'r ddyled sy'n weddill (dysgwyr AU llawn amser Cartref a'r UE yn unig) o fewn y tymor cyntaf
 - Wedi darparu prawf o fudd-dal o ran diystyru ffi lawn neu rannol bosibl
 - Wedi darparu tystiolaeth o dderbyn Benthyciad Datblygu Gyrfa
- 5.3 Ychwanegir tâl ychwanegol o 10% o'r balans sy'n weddill (lleiafswm £10) os trosglwyddir cyfrif dysgwr i gasglwyr dyledion allanol y coleg (TNC Collections).
- 5.4 Gall unrhyw falans sy'n parhau heb ei dalu ar ôl i'r cyfrif gael ei gyfeirio at TNC arwain at gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y dysgwr. Yn y sefyllfa hon, bydd y cyfrif yn golygu llog dyddiol a thaliadau gweinyddol a gallai arwain at gyflwyno Dyfarniad Llys Sirol yn erbyn y dysgwr.
- 5.5 Mae rhai ffioedd cwrs ar gyfer cyrsiau 2 flynedd penodol yn daladwy'n llawn ar yr adeg ymrestru ac yn cwmpasu hyd 2 flynedd lawn y cwrs. Ni fydd ad-daliad ffioedd yn daladwy os na fydd y dysgwr yn dechrau ar ail flwyddyn cyrsiau o'r fath, oni bai y gellir bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwyso a nodir yn y 'Polisi Ailasesu Ffioedd'.

5.6 Yn unol â 4.7 os oes taliad yn ddyledus am 7 niwrnod yn olynol neu fwy o ddyddiad archebu, mae'r coleg yn cadw'r hawl i gau'r archeb yn awtomatig.

6. APELIADAU FFIOEDD AILASESU FFIOEDD - CYRSIAU ADDYSG BELLACH

6.1 Mae gan ddysgwyr yr hawl i ofyn am ad-daliad llawn o daliadau a wnaed hyd at 14 diwrnod o gadarnhad o **Archebu** lle ar gwrs. Yn dilyn y cyfnod hwn mae ffioedd yn daladwy yn llawn o hyd, hyd yn oed os yw'r dysgwr yn dewis peidio â mynychu (neu gwblhau) y cwrs.

6.2 Mae unrhyw ddysgwr sy'n neilltuo lle ar gwrs sydd i fod i ddechrau o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad archebu, yn ildio ei hawl i ad-daliad awtomatig.

6.3 Y tu allan i'r amserlenni a nodir yn 6.1, dim ond dan yr amgylchiadau eithriadol a ganlyn y bydd y coleg yn ystyried diystyru neu ad-dalu'r cyfan, neu gyfran o ffioedd Rhan Amser:

Dysgwyr **AB** yn talu eu ffioedd eu hunain:

- Nid yw'r Coleg yn cynnal, nac yn cau cwrs ar ôl iddo ddechrau
- Nid yw dysgwyr yn gallu parhau â'u cwrs oherwydd salwch. Rhaid i geisiadau am ad-daliadau gael eu cefnogi gan gadarnhad ysgrifenedig gan feddyg bod afiechyd hirfaith yn atal y dysgwr rhag parhau â'i gwrs.
- Dysgwyr sy'n gorfod gadael eu cwrs oherwydd salwch hirfaith aelod o'u teulu, lle mai nhw yw'r prif ofalwr. Rhaid i geisiadau gael eu hategu gan gadarnhad ysgrifenedig gan feddyg neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd.
- Bydd ffioedd arholi a chofrestru yn cael eu had-dalu pan nad yw'r coleg wedi ysgwyddo'r gwariant cysylltiedig yn unig.

6.4 Unrhyw gostau yr ysgwyddir gan y Noddwyr sy'n talu ffioedd dysgwyr:

- Nid yw'r Coleg yn cynnal, nac yn cau cwrs, ar ôl iddo ddechrau

AILASESU FFIOEDD - CYRSIAU ADDYSG UWCH (Lefel 4 ac uwch)

6.5 Mae **dysgwyr AU** sy'n rhoi'r gorau i'w hastudiaethau (tynnu'n ôl, atal, a throsglwyddo) yn wynebu rhwymedigaeth ffi fel a ganlyn:

Cyrsiau HNC/HND a FD Llawn Amser a Rhan Amser:

- Cyfnod gras hyd at 14 diwrnod o **ddyddiad dechrau swyddogol y cwrs** (yn unol â'r brifysgol) - rhwymedigaeth ffioedd dysgu o 0%.
- Unrhyw bresenoldeb ar ôl cyfnod gras hyd at ddiwedd Tymor 1 - rhwymedigaeth ffioedd dysgu llawn o 25%
- Unrhyw bresenoldeb ar gyfer Tymor 2 - rhwymedigaeth ffioedd dysgu llawn o 50%.
- Unrhyw bresenoldeb ar gyfer Tymor 3 - rhwymedigaeth ffioedd dysgu llawn o 100%.

Myfyrwyr Proffesiynol a Chyllid (AAT) Rhan Amser:

- Yn unol â chanllawiau AB

Ym mhob achos arall, y dysgwr sy'n atebol am ffi llawn y cwrs.

COVID/AMGYLCHIADAU EITHRIADOL

Gellir amrywio neu ddiystyru'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Ffioedd ar gyfer rhai amgylchiadau eithriadol sy'n deillio o effaith barhaus y pandemig Covid. Yr uwch reolwyr (aelodau'r Uwch Dîm Reoli) sydd â'r awdurdod i amrywio unrhyw ddarpariaeth.

Ni ddylai unrhyw ddysgwr ddioddef unrhyw anfantais ariannol o ran ffioedd a thaliadau cwrs, o ganlyniad i fesurau a roddwyd ar waith gan y Coleg i liniaru effaith barhaus y pandemig Covid.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i newid llwyfannau dysgu i ddarpariaeth ar-lein ar unrhyw adeg er mwyn diogelu ei ddysgwyr neu aelodau staff.